

## Astudiaeth Achos

# Cynllun Gwirfoddol Dinas Powys

Sefydlwyd Cynllun Gwirfoddol Dinas Powys (DPVC) ym 1972 i gefnogi grwpiau gwirfoddol ac unigolion sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd yr henoed, pobl ag anabledau, neu rai sydd dan anfantais am reswm arall ac sy'n byw mewn cymunedau yn Ninas Powys a'r cyffiniau; ac i weithredu fel man galw cyntaf i'r rhai sy'n ceisio cymorth neu gyngor. Maent yn elusen sy'n cynnig ystod eang o fentrau yn y gymuned, gan ddatblygu prosiectau yn ôl anghenion y grwpiau a'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi, megis cynlluniau lles a chyfeillio, clwb cymunedol, gwasanaethau cynghori a chludiant cymunedol. Yr edefyn cyffredin sy'n rhedeg trwy eu holl wasanaethau uchel eu parch yw bod helpu pobl i deimlo'n llai unig ac ynysig, a chynnal eu hannibyniaeth yn ganolog iddynt.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, mae DPVC yn darparu ystod o wasanaethau cludiant cymunedol sy'n hanfodol i bobl sydd â mynediad cyfyngedig/dim mynediad o gwbl at drafndiaeth gyhoeddus oherwydd diffyg gwasanaethau neu anghenion symudedd ychwanegol. Gyda dau gerbyd yn unig a thîm o yrwyr gwirfoddol (mae rhai ohonynt hefyd yn gwirfoddoli yn eu ceir eu hunain i gynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth os oes angen), y llynedd cwblhaodd DPVC dros 5,100 o siwrneiau gan deithio bron i 6,600 o filltiroedd. Mae cludiant i lechyd wedi dod yn rhan gynyddol o'u gwasanaeth, yn enwedig dros y pedair blynedd diwethaf ers datblygu Canolfan Feddygol Dinas Powys.

### Cefnogi Cleifion

Mae DPVC wedi'u lleoli rhwng dau ysbyty sydd ill dau â gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gwael. Oherwydd nad oes unrhyw fysiau lleol i Ysbyty'r Barri a bod y brif arhosfan bysiau yn Ysbyty Llandochau ryw 10 munud o daith ar droed o'r brif fynedfa, arferai cleifion ddibynnu ar dacsis drud i gyrraedd eu hapwyntiadau. Mae DPVC yn darparu gwasanaeth cwbl hygrych i'r ddau ysbyty, gan gynnwys cludiant rheolaidd i rai sydd â chyflyrau hir dymor sydd angen triniaeth reolaidd. Maent hefyd yn cynorthwyo pobl i gyrraedd apwyntiadau gyda deintyddion, optegwyr, clinig awdioleg a ffisiotherapi - ac mae'r cyfan yn ychwanegol at eu gwasanaethau cludiant cymunedol 'traddodiadol' ar gyfer cleientiaid sy'n mynd ar dripiâu dydd, yn mynd i'r siopau neu'n ymweld â chanolfannau dydd neu aelodau o'r teulu.

Yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth meddygon teulu lleol yn yr ardal a gwaith trylwyr yn chwilio am safleoedd a fyddai'n addas at y diben ac yn gallu gwasanaethu'r gymuned yn well, agorwyd Canolfan Feddygol newydd Dinas Powys bedair blynedd yn ôl. Mae'r adeilad modern, cwbl hygrych hwn yn

cynnig apwyntiadau gofal sylfaenol ac eilaidd ac mae o werth mawr i'r gymuned - yn anffodus nid oes gan y safle arhosfan bysiau na gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus eto ac mae ar ben rhiw hir, serth. Nid yw hyn yn broblem i'r rhai sy'n gallu defnyddio car, ond i'r rhai sy'n methu â gyrru, mae'n rhwystr enfawr a oedd yn atal pobl rhag cyrraedd y feddygfa ar gyfer eu hapwyntiadau. Datblygodd DPVC, mewn partneriaeth â Chludiant Cymunedol Greenlinks a Chyngor Bro Morgannwg, wasanaeth cludiant sy'n ymateb i'r galw ac yn cynnig taith o ddrws i ddrws ac yn ôl i unrhyw un sydd ei angen ledled Dinas Powys.

Gan ddefnyddio VW Caddy cwbl hygyrch sy'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei gynnal ganddynt, mae DPVC yn cynnig cludiant i gleifion bob dydd o'r wythnos er mwyn iddynt fynd a dod ar gyfer eu hapwyntiadau. Mae'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn yn agored i unrhyw un sydd ei angen, ac fe'i defnyddir yn bennaf gan bobl ag anghenion symudedd ychwanegol. Mae gan **Mrs. C.** gyflwr sy'n golygu na all blygu ei choesau. Hyd yn oed pe bai hi'n gallu fforddio pris tacsï - dros £3 bob ffordd, weithiau sawl gwaith yr wythnos - yn gorfforol, ni all fynd i mewn i dacsï safonol ac o ganlyniad byddai'n cael ei gorfodi i fethu ei hapwyntiadau pe na bai cerbyd hygyrch ar gael. Mae cludiant DPVC yn golygu ei bod wedi gallu mynychu rhagor o'i hapwyntiadau a rheoli ei chyflwr yn fwy effeithiol.

Dywed Wendy Lees, Cydlynnydd DPVC fod "Gwirfoddolwyr wrth galon ein sefydliad ac maent wedi camu ymlaen unwaith eto eleni gyda'u cefnogaeth a'u haelioni. Rydym yn cynorthwyo rhwng 3 a 10 claf y dydd i gyrraedd y feddygfa yn rheolaidd, 5 diwrnod yr wythnos, a fyddai hynny ddim yn bosibl heb y tîm o yrwyr gwirfoddol. Ar un dydd Sadwrn, ildiodd ein gwirfoddolwyr eu hamser hamdden er mwyn helpu 23 o bobl i gyrraedd y Ganolfan Feddygol i gael eu pigiadau fflw - nid oedd y cartref gofal lleol yn cynnig eu gwasanaeth arferol, felly camodd ein gywyr i mewn i helpu pawb i gael y pigiadau yr oedd eu hangen arnynt." Pan fydd teithwyr y bore i gyd wedi setlo'n ddiogel gartref eto, bydd y gwirfoddolwyr yn mynd ymlaen wedyn i gludo cleifion ac ymwelwyr i'r ysbytai lleol yn y prynhawn.

Mae'r holl wasanaethau cludiant a gynigir gan DPVC yn hyblyg ac yn gefnogol i rai sydd ag anghenion ychwanegol, sy'n golygu eu bod yn addas i bawb. Maent yn rhad ac am ddim neu ar gost isel iawn, ac felly'n mynd i'r afael â thlodi trafndiaeth yn uniongyrchol trwy greu gwasanaethau hygyrch i bawb yn y gymuned. Maent hefyd yn cael eu darparu'n annibynnol gan yr elusen - nid oes cytundeb ffurfiol, contract na chytundeb lefel gwasanaeth ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, felly gall fod yn anodd mesur y budd o ran cost colli apwyntiadau yn erbyn gwerth gwasanaeth dan gontract. Mae'n amlwg bod DPVC yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan eu cleientiaid ac mae llawer yn cyfeirio atynt fel eu 'hachubiaeth' - i rai cwsmeriaid, DPVC yw eu hunig opsiwn trafndiaeth a heb y gwasanaeth cludiant cymunedol, ni fyddent yn gallu gadael y tŷ o gwbl. Nid yn unig y byddai hyn yn creu cost uniongyrchol o ran colli apwyntiadau iechyd, byddai'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig yn niweidiol iawn i'w hiechyd meddwl a chorfforol, ac mae hynny yn y pen draw yn arwain at risg uwch o ddirywiad a'r angen am ymyrraeth glinigol mewn argyfwng gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> [https://www.ageuk.org.uk/documents/cy-gb/for-professionals/evidence\\_review\\_loneliness\\_and\\_isolation.pdf?dtrk=true](https://www.ageuk.org.uk/documents/cy-gb/for-professionals/evidence_review_loneliness_and_isolation.pdf?dtrk=true)